OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3200

# Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005

**Cynghorau Ysgol**

**3.**—(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol sefydlu cyngor ysgol, a'i ddiben yw galluogi disgyblion i drafod materion ynglŷn â'u hysgol, eu haddysg ac unrhyw fater arall y maent yn ymboeni amdano neu sydd o ddiddordeb ac i wneud sylwadau arnynt i'r corff llywodraethu a'r pennaeth;

(2) Rhaid i bennaeth ysgol:

(a) sicrhau bod cyfarfodydd o'r cyngor ysgol yn cael eu cynnull chwech o weithiau yn ystod y flwyddyn ysgol ac, i'r graddau y mae'n ymarferol, ar gyfnodau rheolaidd, a rhaid i'r cyfarfod cyntaf ddigwydd erbyn 1 Tachwedd 2006; a

(b) sicrhau bod pob cyfarfod cyngor ysgol yn cael eu goruchwylio gan o leiaf un aelod o staff yr ysgol.

(3) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a phennaeth ysgol ill dau ystyried unrhyw fater a gaiff ei gyfleu iddynt gan y cyngor ysgol a rhoi ymateb i'r cyngor ysgol.

(4) Caiff corff llywodraethu'r ysgol a phennaeth yr ysgol gytuno i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn ar y cyd â chorff llywodraethu a phennaeth ysgolion eraill.